TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD Y PENDERFYNIAD	7 Tachwedd 2017
DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD	8 Tachwedd 2017
DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd.	15 Tachwedd 2017

ENW A THEITL YR AELOD CABINET

Y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Amgylchedd

PWNC

Trosglwyddo rhydd-ddaliad Ysgolion Brithdir, Clogau a'r Ganllwyd yn ôl i olynwyr mewn teitl y rhoddwyr gwreiddiol.

PENDERFYNIAD –

Bod rhydd-ddaliad yr eiddo a adnabyddir fel Ysgol Brithdir, Ysgol Clogau ac Ysgol Ganllwyd sydd wedi eu hamlinellu'n goch ar y cynlluniau ynghlwm, yn cael eu trosgiwyddo yn ôl i olynwyr mewn teitl y rhoddwyr gwreiddiol, yn unol a chymalau'r gweithredoedd.

RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –

Gweler yr adroddiad atodol

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Dim

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd, adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodol.

TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG

Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet :	Y Cynghorydd Dafydd Meurig
Enw a theitl Awdur yr Adroddiad :	Meilir Hughes, Rheolwr Stadau
Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad :	7. Tachwedd 2017
Llofnod yr Aelod/au Cabinet :	

Pwnc
Trosgwlyddo rhydd-ddaliad Ysgolion Brithdir, Clogau â'r Ganllwyd yn ôl i olynwyr mewn teitl y rhoddwyr gwreiddiol.

Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad:

Bod rhydd-ddaliad yr eiddo a adnabyddir fel Ysgol Brithdir, Ysgol Clogau ac Ysgol Ganllwyd sydd wedi eu hamlinellu'n goch ar y cynlluniau ynghlwm, yn cael eu trosglwyddo yn ôl i olynwyr mewn teitl y rhoddwyr gwreiddiol, yn unol a chymalau'r gweithredoedd.

Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :

Yn ei gyfarfod 15.09.2009 mabwysiadodd Bwrdd y Cyngor Bolisi Ôl-ddefnydd Ad-Drefnu Ysgolion.

Cydnabyddai'r Polisi fod y Cynllun Ad-Drefnu Ysgolion yn debygol o arwain at sefyllfaoedd ble bydd safleoedd ysgolion yn weddill i anghenion y Cyngor ar gyfer cyflwyno gwasanaeth.

Penderfynwyd y byddai safleoedd sydd yn cael eu datgan yn weddill i anghenion yn sgil y Cynllun Ad-Drefnu ysgolion yn cael eu gwaredu, a hynny yn unol â'r egwyddorion, polisïau gwaredu eiddo a'r gofynion statudol arferol. Rhan greiddiol o'r polisi ôl ddefnydd oedd rhoi cyfle teg i'r cymunedau sy'n cael eu heffeithio pan fo ysgol yn cau, i ystyried llunio cynllun busnes i gefnogi cymryd perchnogaeth o'r eiddo.

Penderfynwyd hefyd y dylid cyflwyno adroddiad gwerthu penodol ar gyfer pob safle ysgol am sêl bendith y Pwyllgor Ardal perthnasol. Yn dilyn yr ad-drefniad cyfansoddiadol yn 2012, gorffwysa'r awdurdod cyfatebol gyda'r Aelod Cabinet Perthnasol.

Yn achos Ysgolion Brithdir, Clogau, a'r Ganllwyd mae'n rhaid gwyro oddi wrth y polisi uchod. Yn wreiddiol, rhoddwyd y safleoedd i ragflaenwyr Cyngor Gwynedd er mwyn datblygu ysgolion ar y safleoedd. Mae cymalau wedi eu cynnwys yn y gweithredoedd yn golygu fod gofyn i'r Cyngor drosglwyddo rhyddfraint yr ysgolion yn ôl i olynwyr y rhoddwyr gwreiddiol pan fo defnydd y safleoedd fel ysgolion yn dirwyn i ben.

Pe na bydd yr olynwyr yn dymuno i'r Cyngor drosgwlyddo'r safleoedd iddynt, neu mewn achos lle na fydd modd adnabod olynwyr mewn teitl, bydd y Cyngor yn symud ymlaen i werthu'r safleoedd ar y farchnad agored, a hyny er mwyn osgoi costau cynnal a chadw di-angen. Ond er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a chymalau'r gweithredoedd bydd gofyn i'r Cyngor ddal y dderbyneb ar ymddiriedolaeth ar ran yr olynwyr mewn teitl.

Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :

Mae'r cymalau sydd wedi eu cynnwys yn y gweithredoedd yn golygu nad yw'n bosibl i'r Cyngor wyro oddi wrth yr argymhelliad yn y daflen hon.

Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :

Dim.

Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :

Dim. Ond noder fod y penderfyniad i waredu yn un sydd ar wahân i'r broses ad-drefnu.

Prif Swyddog Cyllid –
"Yn yr achosion yma bydd yr eiddo'n trosglwyddo'n ôl i olynwyr y rhoddwyr gwreiddiol a ni fydd derbyniadau cyfalaf. Dyma yw'r sefyllfa gyfreithiol sydd rhaid i'r Cyngor ymlynu iddo, a felly nid oes gennyf sylwadau pellach.

In these cases the properties will be transferred back to the successors to the original donor and there will be no capital receipts. This is the legal position to which the Council must adhere, and therefore I have no further comment."

Swyddog Monitro –
Mae'r daflen yma wedi bod yn destyn cyngor cyfreithiol , dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb.

Aelod/au Lleol – Y Cynghorydd Peredur Jenkins

Rwyf yn cydweld a'r drefn gyfreithiol i drosglwyddo i olynwyr y sefyllfaoedd unigol. Byddaf yn disgwyl y bydd pob ymgais bosibl yn cael ei wneud i ddod o hyd i olynwyr safle y Ganllwyd a Bontddu. Bydd yn angenrheidiol i gynnwys mewnbwn lleol i delerau ymddiriedolaeth os bydd unrhyw werthiant yn cael ei drosglwyddo i offeryn statudol.


1:1,250
Cil-y-Coed
Track
Coed
Tŷ-glas
Issues
Ysgol
Gynradd Brithdir
147.2m
Lay-by
Well
Lay-by
Drain


1:1,250
Afon Cwm
Tegfryn
Glanafon
Glyndwr
Hen Eglwys Flats
PC
9.2m
Minafon
TCB
Ysgol Gynradd Bontddu
/ Bontddu Primary School
Ty'r Ysgol
Blue Gardens
Winion
Brynafon
Well
Shelter
Vigra Cottage
Anneddwen
Hen Tyddyndu
Garage
Tyddyn-dû
Glasfryn
13.9m
Drain


1:1,250
Forest Lodge
Issues
Sinks
Path (um)
Derwen Deg
50.9m
TCB
ESS
Issues
Afon Mawddach
Ganllwyd
wyd
Ganllwyd Primary School
Bron-y-Gân
Gwelfryn
Ty Coch
Isfryn
Libanus
Llanfar Lli
Burial Ground
Car